

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016 - 2017

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Crynodeb Perfformiad y Cyfarwyddwr
3. Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?
4. Hybu a Gwella Llesiant y Rheiny yr Ydym yn eu Cynorthwyo
 - (a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
 - (b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd meddwl a chorfforol a llesiant emosiynol pobl
 - (c) Cymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag cam-drin, esgeulustod neu niwed
 - (d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
 - (e) Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach yn ddiogel
 - (f) Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i gael llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion
5. Sut Rydym yn Gwneud yr Hyn yr Ydym yn ei Wneud
 - (a) Ein Gweithlu a'r Ffordd yr ydym yn Cefnogi eu Swyddi Proffesiynol
 - (b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol
 - (c) Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd Gwleidyddol a Chorfforaethol
6. Cael Mwy o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

1. Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf, mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2016/17 yn nodi perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor y llynedd ac yn amlygu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau yr ydym wedi eu gosod ar gyfer y flwyddyn i ddod. Trwy wneud hyn byddwch yn sylwi pa mor wahanol yw'r adroddiad hwn, yn cysylltu cyflwyno gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau i hybu llesiant y bobl hynny yr ydym yn eu cefnogi.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ystod eang o weithgareddau ar draws y Fwrdeistref Sirol sydd yn diogelu ac yn cefnogi plant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a gofalwyr sy'n agored i niwed. Ein nod yw helpu pobl i fod yn ddiogel, yn annibynnol ac yn rhydd rhag tlodi gan ein bod yn gwybod mai dyma'r ffordd orau y gallwn gefnogi llesiant hirdymor pobl.

Er ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i bobl yn Rhondda Cynon Taf, rydym yn gwneud hynny mewn amgylchedd sydd yn newid lle mae mwy o bobl yn byw'n hwy, ac er bod y rhan fwyaf o bobl yn gallu byw bywydau egniol ac annibynnol, mae angen gofal a chymorth ar lawer o bobl i oresgyn effeithiau salwch hirdymor, anabledd neu deulu'n chwalu.

Mae sefydlu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud yr unigolyn yn ganolog i'r hyn y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei gyflwyno, mae'n pwysleisio ymyrryd yn gynt ac ataliaeth, a ffyrdd newydd o gyflwyno gofal i bobl, gan gynnwys ein partneriaid statudol a'r trydydd sector. Nod yr adroddiad ar ei newydd wedd yw adlewyrchu ar y ffordd yr ydym yn cydweithio i hybu llesiant pobl leol.

Mae'n bleser gennyf allu nodi bod gennym nifer o gyflawniadau. Cafodd Partneriaeth Cwm Taf fynediad i'r Gronfa Gofal Canolraddol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ein galluogi i gyflwyno modelau gwasanaeth newydd, rhai ohonynt wedi gweithredu trwy gydol 2016/17 fel ein gwasanaeth Ail-alluogi uwch, ar gyfer pobl â dementia, y gwasanaeth Rhyddhau'n Gynnar ar ôl Strôc a'r Cydlynwyr Cymunedol. Mae prosiectau eraill, fel y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ond yn dechrau ar ôl dyluniad gwasanaeth dwys a recriwtio i'r timau. Bydd y prosiectau hyn yn chwarae rôl arwyddocaol yn helpu pobl sydd angen gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Fel rhan allweddol o'r Cyngor, rydym yn chwarae ein rhan yn gweithredu Cynllun Corfforaethol 2016 - 2020, yn cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu personoli a'u hintegreiddio, gyda mwy o bobl yn cael cymorth i fyw'n hwy yn eu cartrefi eu hunain. Ein hamcanion tymor hwy yw:

- Erbyn 2020, bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion yn cael eu hailfodelu i ganolbwyntio ar leihau ymyrraeth a chynyddu annibyniaeth, gyda mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar. Bydd yr ymagwedd hon, gan weithio gyda thai, y gwasanaethau iechyd a phartneriaid eraill, yn galluogi mwy o bobl i aros yn annibynnol a byw'n hwy yn eu cartrefi eu hunain.
- Byddwn yn rheoli costau enfawr adrannau damweiniau ac achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty yn well, gyda chomisiynu gofal cymdeithasol wedi ei integreiddio i wasanaethau iechyd, fel gofal sylfaenol a chymunedol gan wella profiad y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn sicrhau bod mwy o bobl ifanc ag anableddau cymhleth yn aros yn Rhondda Cynon Taf, lle gawsant eu magu, ac yn byw yn eu cartrefi eu hunain, gyda chyfleoedd i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant, diwylliant a'r celfyddydau, gan eu helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth.

- Bydd mwy o bobl â materion iechyd meddwl yn cael cymorth yn y gymuned i'w helpu i aros yn iach, ailafael mewn dysgu, cael swydd a bod yn egnïol, gyda chymorth yn canolbwyntio ar helpu pobl gyda'u bywyd cyfan, nid rhoi diagnosis yn unig.
- Bydd trigolion Rhondda Cynon Taf ymysg y bobl fwyaf egnïol ac iach yn Ne Cymru, yn elwa ar gyfleusterau hamdden gwell, yn ymweld â'n theatrau, ein llyfrgelloedd a'n safleoedd treftadaeth ac yn gwneud defnydd o barciau a mannau agored y Fwrdeistref Sirol.

2. Crynodeb Perfformiad y Cyfarwyddwr

Dywedais y llynedd fy mod eisiau sicrhau, yn ystod 2016/17, ein bod yn cyflwyno ymarfer cyson, o ansawdd da ar draws ein holl swyddogaethau statudol. Rwy'n falch bod ein staff a'n partneriaid, trwy gydweithio, wedi gwireddu fy mwriad. Trwy wneud hynny, rydym wedi dangos sut y gall ein Cyngor, ynghyd â chydweithwyr yng Nghyngor Merthyr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynllunio a chyflwyno gwasanaethau lleol da.

Mae cwblhau Asesiad y Boblogaeth er enghraifft wedi bod yn garreg filltir arwyddocaol i Fwrdd Partneriaeth Cwm Taf, ac mae o gymorth i ni ddeall yn well yr hyn sydd yn bwysig i'n trigolion a'n cymunedau. Rwy'n credu bod yr Asesiad hwn yn rhoi llwyfan cryfach i ni allu datblygu ein cynlluniau i'r dyfodol gyda'n gilydd.

Mae cynllun a rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf (SCWDP) yn rhan o'r trefniadau Arweinyddiaeth Ranbarthol yng Nghwm Taf. Nod y Rhaglen hon yw gwella ansawdd a rheolaeth darpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol trwy gymhwyso ymagwedd wedi ei chynllunio tuag at ddysgu a datblygu, a thrwy geisio cynyddu ymgymeriad hyfforddiant ar draws y sector gwasanaethau cymdeithasol. Yn 2016/17, ar gyfer ein Staff Gofal Cymdeithasol ein hun, fe wnaethom:

- Weithio'n galed i sicrhau bod gan staff ar draws yr holl bartneriaid sydd yn ymgysylltu â chyflawni'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau i weithredu yn unol â'r fframwaith cyfreithiol newydd a bod y newidiadau diwylliannol angenrheidiol yn cael eu dwyn ymlaen
- Sicrhau bod yr holl ddysgu a datblygu craidd ar gyfer staff gofal cymdeithasol, yn cynnwys hyfforddiant sefydlu a chymwysterau, yn cael ei ailffurfio i adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd.
- Hyfforddiant â Chymorth ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.
- Datblygiad sgiliau â chymorth ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen.
- Cefnogi'r isadeiledd ar gyfer dysgu a datblygu.

Yn Ogystal, rydym wedi gweithio gyda'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol i:-

- Gefnogi staff ar draws yr holl sefydliadau partner oedd yn gwneud dyletswyddau a gyflwynwyd yn unol â'r gyfraith gwasanaethau cymdeithasol newydd i gael y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a sicrhau bod y newidiadau diwylliannol angenrheidiol yn cael eu dwyn ymlaen.
- Sicrhau bod yr holl ddysgu a datblygu craidd, yn cynnwys hyfforddiant sefydlu a chymhwyso, yn cael eu hailffurfio i adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd.
- Parhau â'r cymorth presennol ar gyfer hyfforddiant cymhwyso ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru.
- Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol.
- Cefnogi'r isadeiledd ar gyfer dysgu a datblygu ar draws Cymru, yn cynnwys gwaith partneriaeth a chydweithio lleol a rhanbarthol gan sicrhau ymrwymiad gan grwpiau a dangynrychiolir.

- Sicrhau bod casglu, cydgrynhoi ac adrodd gwybodaeth y gweithlu yn effeithiol.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y Sector Gofal Cymdeithasol.
- Datblygu rhaglen datblygu rheolaeth effeithiol.

Mae adroddiad perfformiad corfforaethol 2016/17 ar gyfer y Cyngor yn dangos ein bod yn y chwarterel uchaf o ran:

- Sicrhau bod plant yn ein gofal wedi cael llai na 3 lleoliad yn ystod y flwyddyn, gan gyflwyno mwy o sefydlogrwydd i'w bywydau.
- Ymweld â phlant yn ein gofal, yn unol â'r rheoliadau.
- Disgyblion yn gadael yr ysgol â chymwysterau.
- Disgyblion yn ein gofal yn gadael yr ysgol â chymwysterau.
- Asesu anghenion Gofalwyr oedolion.
- Y gyfran uchel o'n trigolion hŷn yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned.
- Cyflwyno grantiau cyfleusterau anabl yn gyflym, gan helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth.
- Atgyfeiriadau diogelu oedolion lle mae'r perygl wedi cael ei reoli.

Rydym hefyd yn gwybod bod angen i ni wneud mwy i wella'r amser y mae'n ei gymryd i ni helpu pobl sydd yn gadael yr ysbyty ac yn dychwelyd i'w cartref neu i gartref gofal, ac i fynd i'r afael â niferoedd uchel ein trigolion yr ydym yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal. Mae llawer o'r gwaith yn ymwneud â'r materion mawr hyn yn cael ei wneud gyda sefydliadau eraill. Trwy weithio ar y cyd, gan ein bod yn wynebu heriau tebyg, mae gennym fwy o allu i ddarparu atebion gwell yn ystod y blynyddoedd i ddod.

3. Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i'w wneud yn haws dod o hyd i wybodaeth a'i deall. Trwy sicrhau bod ein gwybodaeth yn gliriach, yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr ac yn hawdd i'w darllen, ein gobaith yw y bydd pawb, beth bynnag fo'u hoed, yn gallu deall y materion a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn well.

Rydym wedi cynnwys:

- Mwy o wybodaeth yn ein hadroddiadau.
- Wedi darparu crynodebau hawdd eu darllen sydd hefyd yn cynnwys 'Cwestiynau Cyffredin'
- Wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a'n Hwb Ymgysylltu ar-lein, sy'n ei wneud yn haws gweld yr hyn y gofynnir i drigolion yn ei gylch mewn arolygon.
- Cyflwyno sioeau teithiol a digwyddiadau eraill.
- Mwy o ddefnydd o gyfrif ymgysylltu partneriaethau twitter, @cwmtafconsult, er mwyn gwneud trigolion a rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu partneriaid, yn cynnwys rhestrau ac arolygon digwyddiadau.

Yn ystod 2016/17, rydym wedi parhau i ddefnyddio 'RhCT Gyda'n Gilydd' i gyflwyno ymagwedd newydd wrth gynnwys trigolion a chymunedau wrth gyflenwi gwasanaethau a chyfleusterau yn y dyfodol. 'Rydym wedi cyflwyno sesiynau galw heibio gydag Aelodau'r Cabinet i drafod cynigion i newid gwasanaethau e.e. Llyfrgelloedd a gwasanaethau ieuencid, 'Sioeau Teithiol' Canol Tref i gymryd rhan mewn efelychwr cyllideb ryngweithiol newydd fel rhan o'r trafodaethau am yr heriau cyllidebol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, ac wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth well a mwy cyfoes am y pethau sydd yn bwysig iddynt.

Yn ystod 2016/17, cynhaliwyd 4 sesiwn Panel Dinasyddion cynhyrchiol yn gweithio'n gydweithredol gyda grwpiau gwahanol o'r boblogaeth i wella gwasanaethau ymhellach ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth. Roedd y Paneli'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Panel dinasyddion pobl ifanc yn ystyried safbwynt plant sy'n derbyn gofal (canlyniad wedi ei gofnodi fel ffilm) – canlyniad y panel hwn oedd datblygu'r prosiect Stori Oes ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Hwylusodd panel dinasyddion oedolion er mwyn ystyried safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr o ran gwasanaethau integredig (canlyniad wedi ei gofnodi fel adroddiad) – mae canlyniad hyn wedi cefnogi datblygiad y gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref ac wedi atgyfnerthu'r angen i olrhain System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).
- Hwylusodd panel dinasyddion oedolion er mwyn ystyried safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr i gefnogi ymgysylltu'r cyhoedd yn ehangach o ran asesu Anghenion y Boblogaeth (canlyniad wedi ei gofnodi fel adroddiad).
- Panel dinasyddion oedolion i ystyried safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr o ran y gweithlu a datblygu'r gweithlu (canlyniad wedi ei gofnodi fel adroddiad) - defnyddir y canlyniad fel rhan o ddadansoddi anghenion hyfforddiant y Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Rydym hefyd yn parhau i gynnal ymgynghoriadau ac arolygon er mwyn cael safbwyntiau cymaint o drigolion â phosibl. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd yn rhoi adborth i'n helpu i lunio'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Rydym yn gofyn yn bennaf am eich safbwyntiau am mai dyma'r peth teg a chywir i'w wneud. Mae cael eich safbwyntiau a'ch barn o gymorth i ni wirio'r hyn yr ydym yn ei wneud a sut y mae'n gwneud gwahaniaeth i'r bobl sydd yn byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf.

Mae Fforwm Pobl Ifanc ar draws RhCT hefyd wedi cael ei sefydlu i wella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl ifanc. Bydd y Fforwm hwn yn cynnwys pobl ifanc yn cynrychioli eu hysgolion a fydd yn eu tro yn adrodd yn ôl i'w Cynghorau Ysgol er mwyn i bobl ifanc allu cymryd mwy o ran mewn materion pwysig sydd yn effeithio arnyn nhw. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda'r pum Fforwm Pobl Hŷn ar draws RhCT er mwyn i safbwyntiau pobl hŷn fod yn hysbys a chael eu hystyried.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal arolwg ansoddol o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Fel maes gwaith sy'n flaenoriaeth ar gyfer 2017/18, byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth yma'n dechrau effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio. Ar y cyfan, mae ein hasesiad o ffurflenni'r arolwg yn dweud wrthym fod:

- 87% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant gyda 13% yn ymateb bod eu cartref weithiau ac weithiau ddim yn cefnogi eu llesiant.
- Dim ond 50% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo eu bod yn gallu gwneud y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw ac ymatebodd 36% eu bod weithiau'n gallu gwneud y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw.
- Dim ond 52% o'r ymatebwyr sydd yn teimlo'n rhan o'u cymuned. Nid oedd oed penodol gyda'r canlyniadau yn amrywio ar draws y grwpiau oedran.
- Nododd 84% o'r ymatebwyr eu bod yn hapus gyda chefnogaeth eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwmo i greu amgylchedd sydd yn annog trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio gyda'r cyngor ac yn cynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn ôl ffigurau cyfrifiad 2011, mae 27,779 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Rhondda Cynon Taf, sydd yn cynrychioli 12.3% o'r boblogaeth.

Mae proffil iaith manylach ar gael yn strategaeth hybu'r Gymraeg RhCT yn

<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/WelshServices/Relateddocs/WelshLanguagePromotionalStrategy.pdf> ond mae hyn yn nifer sylweddol o bobl sydd yn byw yn y Fwrdeistref Sirol a allai fod angen gwasanaethau cymdeithasol sydd yn debygol o dderbyn y cynnig gweithredol yr ydym yn ei hyrwyddo i gyfathrebu yn Gymraeg wrth ryngweithio gyda ni. Gwyddom, ymysg y bobl hynny sydd yn defnyddio'r gwasanaethau sydd gennym ar hyn o bryd fod:

- 56 o achosion agored yn y Gwasanaethau Plant y mae eu cofnodion yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac o'r rheiny, mae 3 yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith.
- 38 o achosion agored yn y Gwasanaethau Oedolion y mae eu cofnodion yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac o'r rheiny, mae 9 yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith.

Ar draws y Cyngor roedd nifer y cyflogeion sydd yn siarad Cymraeg (a nodwyd yn Ebrill 2017) fel a ganlyn:-

Sylfaen staff*	Lefel sgil	Rhugl	%	Gweddol rugl	%	Cyfanswm	%
14,495	Holl staff	800	5.52	395	2.73	1,195	8.25

O'r rheiny, mae'r niferoedd yr oedd yn hysbys eu bod yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2017 sydd yn hyderus i gyfathrebu'n llawn gyda Defnyddwyr y Gwasanaeth yn Gymraeg fel a ganlyn:-

Gwasanaethau mewnol RhCT		Gwasanaethau wedi eu Comisiynu gan RhCT	
Rheolwyr Canolog	6	Cysylltu Bywydau	1
Gweithwyr cymdeithasol (oedolion)	9	Cartrefi gofal	25
Gweithwyr cymdeithasol (Plant)	18	Gofal cartref	3
Gweithwyr gofal yn y cartref	5	Byw gyda chymorth	1
Gweithwyr gofal preswyl	11	Gwasanaethau plant	17
Gweithwyr Gofal Dydd	2	3 ^{ydd} sector oedolion	5

Rydym yn gweithio ar weithredu cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn ymateb i fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau yn y Gymraeg ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae rhywfaint o'r cynnydd a nodwyd trwy'r gwaith hwn yn cynnwys bod

- Cynnydd da'n cael ei wneud i fod yn wasanaeth 'cynnig gweithredol' gyda'r Gymraeg yn cael ei chynnig a'i dewis yn y man cyswllt. Ar gyfer gwasanaethau oedolion sydd yn dechrau gyda'r ymateb cyntaf a lle mae'r Gymraeg yn cael ei dewis, caiff y galwr ei drosglwyddo i siaradwr Cymraeg a'i olrhain a'i gefnogi yn Gymraeg trwy wasanaethau tymor byr a hirdymor. Yn yr un modd yn y gwasanaethau plant, dynodir siaradwr Cymraeg i'r achos.
- Er 2015/16, mae systemau gwybodaeth wedi ein galluogi i gofnodi/adlewyrchu dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth o ran cyfathrebu ar lafar/yn ysgrifenedig. Gwnaed cyswllt hefyd gyda siaradwyr Cymraeg hysbys i adolygu eu gofynion.
- Rydym wedi parhau i godi a hybu ymwybyddiaeth o iaith ymysg y staff i gyd. Anogir yr holl staff a rhoddir cyfleoedd iddynt wneud cyrsiau Cymraeg a hyfforddiant diweddarau ar gyfer Siaradwyr Cymraeg yn y gwaith.
- Caiff yr holl wybodaeth am ofal cymdeithasol oedolion ar gyfer y cyhoedd ei gyfieithu yn cynnwys y wybodaeth a geir ar wefan y Cyngor a DEWIS. Mae posterï Welsh on the wall wedi cael eu dosbarthu i'n cartrefi gofal gyda chyfarchion ac ymadroddion allweddol wedi eu cynnwys ar y posterï. Caiff y rhain eu harddangos yn swyddfeydd cartrefi gofal.
- Mae'r holl hyfforddiant datblygu gweithlu gofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg.

Mae mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r gwaith a wneir i fodloni safonau'r Gymraeg ar gael yn Adroddiad Cydymffurfio RhCT ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg 2016 – 2017 ar gael yn

<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/WelshServices/Relateddocs/RCTWelshLanguageStandardsComplianceReport20162017.pdf>

4. Hybu a Gwella Llesiant y Rheinyr yr Ydym yn eu Cynorthwyo

Mae llesiant pobl a chanlyniadau yn greiddiol i'n hymagwedd tuag at wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Cafodd y Ddeddf newydd ei gweithredu ym mis Ebrill 2016, ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fodloni ei nod o gefnogi llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Rydym eisieu sicrhau bod gan ddinasyddion lais a rheolaeth wirioneddol dros eu bywydau eu hunain, ac mae hynny'n golygu gweithio mewn partneriaeth i lunio'r cymorth a'r gwasanaethau yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r adran hon yn nodi ein perfformiad yn hybu a gwella llesiant pobl yn Rhondda Cynon Taf sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Rydym wedi ei threfnu i nodi sut mae ein gwaith yn gysylltiedig â'r chwe Safon Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer llesiant. Mae'n nodi'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y llynedd, a chymau blaenoriaeth ychwanegol yn ymwneud â ffyrdd newydd o weithio ac mae'n rhoi gwybodaeth am ein cynnydd. Mae'n darparu data os yw ar gael, yn rhoi enghreifftiau bywyd go iawn o'r effaith ar bobl, yn ogystal â nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/18.

(a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl eisieu eu cyflawni

Beth wnaethom gynllunio ei wneud y llynedd?

Roedd ein cynlluniau ar gyfer y llynedd yn cynnwys:

- Rheoli rhoi gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith a chwblhau'r newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer -
 - y model gweithredu gwasanaethau oedolion yn cynnwys y trefniadau gwybodaeth, cyngor a chymorth.
 - Y model gweithredu gwasanaethau plant ac atgyfnerthu'r newidiadau i'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer gwasanaethau 16+
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau llesiant personol y maent eisieu eu cyflawni.
- Gwerthuso effaith y newidiadau a wnaed i'r Gwasanaeth Ymholi ac Asesu Rheoli'r gwaith o weithredu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Gwasanaethau Plant.

I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Gwnaed cynnydd da yn gweithredu'r Ddeddf gyda newidiadau i'r modelau gweithredu ar gyfer gwasanaethau Oedolion a Phlant. Yn ystod 2016/17, rhoddodd y Gwasanaethau Plant raglen newid sylweddol ar waith, yn bennaf oherwydd ailfodelu'r gwasanaeth ac mewn ymateb i'r Ddeddf, gydag elfennau allweddol ohoni'n cael eu rhoi ar waith. Gwnaed cynnydd da yn cyflwyno'r camau gwella a geir yng nghynllun busnes 2016/17, gyda llawer ohonynt wedi eu cwblhau.

Mae'r model gweithredu diwygiedig a'r model cyflenwi ar gyfer Gwasanaethau Oedolion wedi cael ei gytuno. Roedd rhoi'r model newydd ar waith i fod cyd-fynd â rhoi strwythur newydd ar waith, ac er bod yr ymgynghoriad ar strwythurau staff wedi cymryd mwy o amser nag y rhagwelwyd, mae wedi cael ei gwblhau. Mae recriwtio ar gyfer strwythurau staffio newydd yn datblygu'n dda erbyn hyn a bydd rhoi'r model gweithredu newydd ar waith yn digwydd ym mis Mehefin 2017 unwaith bydd yr ailstrwythuro hyn wedi ei gwblhau. Mae staff wedi cael eu hyfforddi i gefnogi rhoi'r trefniadau hyn yn y Ddeddf ar waith, ac mae gwerthusiad annibynnol wedi dechrau ac mae ar amser.

Yn 2016/17, sefydlwyd gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad wedi cael eu defnyddio i gefnogi ail-ddylunio gwasanaethau IAA ac mae'r gwaith o roi'r gwasanaeth ailfodelu ar waith yn datblygu'n dda er bod yr ailstrwythuro a gynlluniwyd wedi cymryd mwy o amser nag y rhagwelwyd.

Cafodd yr holl wasanaethau sydd yn rhoi gwybodaeth eu mapio a'u hadolygu i sicrhau bod gwasanaethau Oedolion yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mae'r dogfennau newydd, canllawiau staff, a gwybodaeth gyhoeddus wedi cael eu llunio a'u rhannu gydag ALLau eraill ar draws Cymru.

Yn unol â datblygiadau cenedlaethol, mae'r Cyngor yn cadw cyfeiriadur o wasanaethau (DEWIS) er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am yr holl wasanaethau llesiant yn ardal Cwm Taf. Lansiodd gwefan DEWIS yng Nghwm Taf ym mis Gorffennaf 2016 a hyd yn hyn mae'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer mwy nag 800 o sefydliadau yn yr ardal.

O edrych ar y data, canran yr oedolion a dderbyniodd gyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth am 6 mis yw 78.57% sydd yn dangos bod ein staff yn rhoi cyngor a chymorth defnyddiol i bobl sydd eisiau gwybodaeth. Rydym yn ceisio rhoi mwy o opsiynau i bobl am yr ystod o gymorth a gwasanaethau yn cynnwys cyfeirio pobl i gymorth gan sefydliadau partner allanol, sydd yn gweithio'n gydweithredol.

Roedd rhai enghreifftiau o weithio'n gydweithredol yn 2016/17 yn cynnwys:

- Datblygu porth Dewis Cymru ar draws Cwm Taf
- Lleoli cydlynwyr cymunedol y trydydd sector ar gyfer gwasanaethau oedolion
- Y Pwynt Mynediad Unigol yn cysylltu pobl â grwpiau a gweithgareddau cymunedol
- Gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf a Chefnogi pobl i ddod o hyd i gymorth amgen yn ein cymuned

Fe wnaeth y Gwasanaethau Plant hefyd gydnabod pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth i alluogi plant, teuluoedd a gofawyr i gymryd rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth a gwneud penderfyniadau gwybodus amdano a sut mae'n cael ei ariannu. Un o'r amcanion yw sicrhau gwybodaeth glir, gywir a digonol; mae cyngor a chymorth ar gael ac yn hygyrch i holl blant a theuluoedd Rhondda Cynon Taf (RhCT). Rydym wedi ail-gyflunio drws blaen y Gwasanaethau Plant er mwyn rhoi un pwynt mynediad sydd yn sicrhau model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sydd yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Aeth y System Plant Integredig (ICS) yn fyw ar 14 Ebrill 2016 a chaiff ei defnyddio gan ymarferwyr ar draws y Gwasanaethau Plant. Mae'r holl gysylltiadau newydd i Wasanaethau Plant RhCT bellach yn cael eu cyfeirio i'r IAA/MASH, sydd yn cael sgwrs gyda'r unigolyn i nodi'r hyn sydd yn bwysig iddynt ac a oes angen darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth neu ymchwilio i bryderon diogelu.

Yn 2016/17, ehangwyd y gwasanaeth eiriolaeth yr ydym yn ei gomisiynu hefyd i gynnwys yr holl grwpiau defnyddwyr gwasanaeth fel arfer da ac i sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf newydd. Mae gwerthuso'r gwasanaeth hwn gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn dangos ei fod yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi sydd o fudd uniongyrchol i unigolion sydd angen cymorth i leisio eu safbwyntiau.

Mae ffocws gwaith gyda phlant a theuluoedd wedi symud tuag at ganlyniadau llesiant a chael sgwrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' gyda defnyddwyr y gwasanaeth. O ganlyniad, mae ein holl asesiadau a'n gwaith papur ar ofal a chymorth wedi cael ei newid i adlewyrchu hyn ac mae'r Staff wedi cael hyfforddiant neilltuol ynghylch sut i roi hyn ar waith. Mae hyn wedi golygu bod y pocedi o ymgysylltu da gan gwsmeriaid oedd yn amlwg ar draws y Gwasanaeth wedi cael ei ymestyn, er bod angen gwneud mwy o waith ar fesur canlyniadau.


Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn bodloni cyfraddau ymateb uchel gyda chanran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer Plant o fewn y graddfeydd amser statudol yn 98.04% (5355/5462) a chanran Defnyddwyr y Gwasanaeth sydd yn dewis eu darparwyr gwasanaeth eu hunain trwy Daliadau Uniongyrchol wedi cynyddu i 14.34% (339/2364).

Gwyddom hefyd fod ein gwaith partneriaeth i gefnogi gofalwyr yn cael effaith gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cadarnhau bod "partneriaethau gwaith da gyda nifer o sefydliadau'r trydydd sector ac mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi eu rôl yn cynorthwyo gofalwyr." Dywedasant hefyd fod y gofalwyr y siaradwyd â nhw yn "gadarnhaol iawn am barhad a hygyrchedd gweithwyr cymdeithasol a enwyd a'r cymorth y maent yn ei gynnig." Rydym yn gwybod bod angen gwneud mwy i hybu hawliau gofalwyr i gael asesiad o'u hanghenion.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd arolwg ansoddol gyda phobl sydd yn derbyn gofal a chymorth i asesu a yw pobl yn gwybod â phwy i gysylltu am eu gofal a'u cymorth.

Nododd 79% (305/386) o'r oedolion a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu am eu gofal a'u cymorth.

I know who to contact about my care and support




Rwy'n gwybod â phwy i gysylltu am fy ngofal a'm cymorth

- Ydw
- Weithiau
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nododd 84% (322/385) o'r oedolion sydd wedi derbyn gofal a chymorth ac a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent wedi ei gael.

I am happy with the care and support I have had




Rwy'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth yr wyf wedi ei gael

Ydw
Weithiau
Nac ydw
Ddim yn gwybod

Nododd 99% (384/392) o'r oedolion sydd yn derbyn gofal a chymorth ac a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch

I was treated with dignity and respect




Cefais fy nhrin gydag urddas a pharch

Do
Weithiau
Naddo
Ddim yn gwybod

Nododd 81% (185/227) o'r plant â chynllun gofal a chymorth a ymatebodd eu bod yn teimlo bod eu safbwyntiau am fy ngofal a'm cymorth wedi cael eu clywed

My views about my care and support have been listened to




Cafodd fy safbwyntiau am fy ngofal a'm cymorth eu clywed

Do
Weithiau
Naddo
Ddim yn gwybod

Nododd 91% (209/230) o'r plant â chynllun gofal a chymorth a ymatebodd i'r arolwg iddynt gael eu trin gydag urddas a pharch

I was treated with respect



Cefais fy nhrin gydag urddas a pharch

Do
Weithiau
Naddo
Ddim yn gwybod

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Rydym wedi nodi ystod o gamau blaenoriaeth yn deillio o'n hunanwerthusiadau o wasanaethau oedolion a phlant:

- Cyflwyno gwasanaethau integredig, wedi eu personoli ar draws Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sydd yn hybu dewis, rheolaeth ac annibyniaeth, gyda mwy o bobl yn cael eu cynorthwyo i fyw'n hwy yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hyn hefyd yn golygu y byddwn yn gweithio mewn ffordd sydd yn gwneud y defnydd gorau a mwyaf cynaliadwy o'n hadnoddau cyfyngedig sy'n lleihau, gan edrych bob amser ar ffyrdd amgen o wneud pethau, er mwyn lleihau'r effaith ar drethdalwyr y Cyngor.
- Sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad i'r cymorth a'r wybodaeth iawn, yn gynt, fel bod angen cymorth statudol Gwasanaethau Plant ar lai o blant a phobl ifanc.
- Datblygu a defnyddio Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i roi gwybodaeth gywir, fwy diweddar a chreu a chynnal ymagwedd unedig ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth. Bydd rhoi'r WCCIS ar waith fel system TGCh genedlaethol yn ein cynorthwyo ni i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol a mynd i'r afael â'r heriau technegol ac ymarferol sylweddol sydd yn gysylltiedig â chreu a chynnal ymagwedd unedig. Ar ôl ei rhoi ar waith, bydd y system newydd yn rhoi: Rheolaeth well dros ofal trwy gyfathrebu gwell rhwng asiantaethau; Asesu llai beichus a chyfleoedd ar gyfer ailadrodd gwybodaeth i asiantaethau lluosog; Llai o gyfleoedd ar

gyfer dyblygu a gwallau yn arbennig ar gyfer pobl agored i niwed, a phrosesau busnes mwy effeithlon ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

- Cynyddu nifer y cleientiaid gofal cymdeithasol sydd yn derbyn taliadau uniongyrchol i'w galluogi i wneud dewisiadau personol i reoli eu hanghenion eu hunain.

(b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd meddwl a chorfforol a llesiant emosiynol pobl

Beth wnaethom gynllunio ei wneud y llynedd?

Roedd ein cynlluniau ar gyfer y llynedd yn cynnwys:

- Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i gwblhau a chytuno ar y datganiad o fwriad strategol ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anabledau dysgu, (anghenion cymhleth ac awtistiaeth) a'u teuluoedd a mynd ar drywydd datblygu model gwasanaeth deinamig newydd sydd yn cadw pobl yn ddiogel, yn datblygu cymorth cymunedol, yn pwysleisio ymyrraeth gynnar ac ataliaeth ac yn galluogi pobl i fyw bywydau cyflawn yn eu cartrefi eu hunain.
- Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i barhau i weithredu'r datganiad comisiynu rhanbarthol ar gyfer pobl hŷn er mwyn olrhain datblygiad modelau gwasanaeth newydd ar gyfer gofal cartref, llety â chymorth a gwasanaethau dydd; parhau â'r pwyslais ar y gwasanaethau ail-alluogi a gofal canolraddol a rhoi mwy o gymorth i fentrau cymdeithasol a'r trydydd sector i ddatblygu cadernid rhwydweithiau cymorth cymunedol.
- Rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi i wella cyfleusterau ffitrwydd corfforol yng nghanolfannau hamdden y Cyngor a gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol a grwpiau cymunedol i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden.
- Gwella'r cynnig i ofalwyr ar gyfer asesu a chymorth yn unol â'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd.

I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Cwblhawyd y gwaith o ailffurfio'r gwasanaeth Gofal Cartref (gofal cartref a gwasanaethau gofal ac ailalluogi mewnol). Daeth y gwasanaeth Gofal Cartref newydd hwn yn weithredol yn 2016/17 gyda thros 40 o weithwyr gofal cartref presennol yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaethau cymorth gofal ychwanegol gan roi mwy o gadernid gweithredol i'r gwasanaeth.

Rydym wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno rhaglenni sydd yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth a gwybodaeth i'n trigolion sydd dros 50 oed i wella eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cynllun peilot o gwrs 10 wythnos 'Ymwybyddiaeth o Syrthio' gyda "Trivallis" oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan ddietygwyr, ffisiotherapyddion, Age Cymru yn ogystal â sesiynau gwybodaeth gydag Yfed Doeth Heneiddio'n Dda, RNIB, RNID Cymru, Age Connects Morgannwg a Vision Products. Roedd yr adborth o'r cynllun peilot hwn yn gadarnhaol gyda'r trigolion yn dweud eu bod yn "hapus gyda'r cwrs", "wedi dysgu llawer" ac "wedi mwynhau'r dysgu".

Yn ogystal, mae'r Strategaeth Gwasanaethau Dydd wedi cael ei chwblhau a chafwyd cytundeb mewn egwyddor ar y model dewisol i'r dyfodol. Hysbyswyd y Cabinet ynghylch y strategaeth gomisiynu ddrafft ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ar 3 Tachwedd 2016. Cytunwyd ar y trefniadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r partneriaid a dechreuodd ym mis Chwefror 2017. Bydd y strategaeth gomisiynu a'r cynllun gweithredu terfynol yn cael eu cwblhau ar ddechrau 2017/18.

Rydym wedi rhoi Gwasanaeth Asesu ac Ymateb Integredig ar brawf sydd wedi:

- Cynnal asesiadau cychwynnol ac wedi comisiynu/darparu cymorth iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector cymunedol i hwyluso dychwelyd o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac Unedau Penderfyniad Clinigol (CDU) er mwyn atal derbyniadau diangen.
- Ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael eu derbyn, cynnal asesiadau rhyddhau integredig, cymhleth gan ddefnyddio rhagosodiad bod unigolion yn cael cymorth i ddychwelyd i leoliad cymunedol.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi esblygu yn Wasanaeth Aros yn Iach yn y Cartref fydd yn cael ei roi ar waith yn llawn yn 2017/18. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn adolygiad perfformiad 2016/17 wedi nodi bod:

"Datblygiad 'Aros yn iach yn y cartref' a gwasanaethau ymateb cyflym mewn ysbytai, gydag adnoddau gweithwyr cymdeithasol ychwanegol, wedi arwain at asesu cyflymach, mwy effeithlon o angen unigol yn gynt. Mae hyn wedi arwain at fwy o bobl yn cyflawni annibyniaeth o fewn chwe wythnos."

Mae helpu pobl i gael cymorth gartref yn dal yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor.

- Cyfradd trosglwyddo gofal gydag oedi am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd yn 75 oed neu'n hŷn yw 4.95 (profodd 94 o bobl oedi)
- Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai 6 mis yn ddiweddarach yw 42.11% (24/57)
- Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi sydd heb unrhyw becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach yw 77.23% (553/716)
- Cyfran y bobl a aseswyd gan ofal cymdeithasol oedolion sydd wedi derbyn cynllun gofal a chymorth yw 67.04% (2024/3019)

Fe wnaethom gyflwyno cynllun peilot llwyddiannus gyda Chydlynwyr Cymunedol yn y Pwynt Mynediad Unigol i gefnogi ymagwedd datblygu'r gwasanaeth IAA. Mae'r Cydlynwyr yn gallu

nodi achosion lle gallai unigolyn gael budd o gael cysylltiad â gweithgareddau yn eu cymuned i hybu llesiant emosiynol yn gynnar.

- O'r 57 o achosion a atgyfeiriwyd gan SPA, fe wnaeth 30 o achosion osgoi dilyniant i wasanaethau statudol eraill (53%)
- Gyda'r 27 o achosion oedd yn weddill, atgyfeiriwyd y rhain ar y cyd i'r gwasanaethau Oedolion yn seiliedig ar angen – bodlonwyd yr anghenion ar y cyd gan y GC a'r GGau
- O'r 66 o achosion a atgyfeiriwyd i gyd, nid yw 48 wedi dychwelyd i asesu eu hanghenion ymhellach (73%)

Enghraifft o Astudiaeth Achos o'r Cynllun Peilot Cydlynedd Cymunedol

Mae Mrs C yn 91 oed ac nid oes ganddi unrhyw becyn gofal ac mae'r holl gymorth yn cael ei ddarparu gan ei merch a wnaeth atgyfeiriad at yr SPA gan fod ei mam yn mynd yn gynyddol ynysig ac unig. Nid oedd yn mynd allan nac yn gweld unrhyw un.

Archwiliodd y Cydlynedd Cymunedol pa weithgareddau y byddai Mrs C yn eu hoffi ac archwiliodd grwpiau cymdeithasol lleol. Cynorthwyodd ei merch i gysylltu â chanolfan leol Byddin yr Iachawdwriaeth ac mae'r fam a'r ferch bellach yn mynychu 2 fore coffi a chlwb cinio yn wythnosol.

Mae ysbryd y ddwy wedi gwella'n sylweddol wrth gyfarfod â phobl newydd a mynd allan o'r tŷ. Mae'r ferch hefyd wedi cael gwybodaeth am y prosiect cymorth i Ofalwyr


Ar gyfer y plant hynny yr ydym yn eu cynorthwyo, rydym yn y chwarter uchaf yng Nghymru o ran sicrhau bod plant yn ein gofal yn cael llai na 3 lleoliad yn ystod y flwyddyn, gan roi mwy o sefydlogrwydd i'w bywydau. Yn ogystal, canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis o dderbyn gofal oedd 58.11% (86/148).

Cafodd Strategaeth Gofalwyr newydd Cwm Taf ei gymeradwyo gan y Cabinet ac mae'r adolygiad o arferion gweithredu a gweithdrefnau'r asesiad gofalwyr wedi cael ei gwblhau ac mae'r trefniadau newydd wedi cael eu rhoi ar waith.

Mae'r arolwg ansoddol o bobl sydd yn derbyn gofal a chymorth wedi darparu'r canfyddiadau canlynol:

Nododd 72% (169/232) o blant â chynllun gofal a chymorth a ymatebodd, eu bod yn gallu gwneud y pethau y maent yn eu hoffi drwy'r amser tra bod 24% (55/232) wedi dweud eu bod yn gallu weithiau.

I can do the things I like to do



Rwyf yn gallu gwneud y pethau rwyf yn hoffi eu gwneud

Ydw
Weithiau
Nac ydw
Ddim yn gwybod

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Yn ystod 2017/18 ein cynlluniau yw:

- Darparu Gwasanaeth Aros yn lach yn y Cartref i roi ymateb integredig gydag asiantaethau partner i leihau cyfanswm y dinasyddion sydd yn profi oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty. Bydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 8pm
- Gweithio gydag Iechyd i adolygu ein hymagwedd i'r dyfodol tuag at iechyd meddwl cymunedol, yn cynnwys gweithio tuag at integreiddio CMHT
- Dod ag ystod ffrydiau gwaith a blaenoriaethau ynghyd i roi ffocws unigol i'r holl bartneriaid ymgysylltu ac ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac ataliaeth sydd yn canolbwyntio ar deuluoedd fydd yn gwneud gwahaniaeth i deuluoedd yn RhCT trwy sefydlu'r Rhaglen Teuluoedd Cydnerth.
- Targedu darpariaeth gwasanaethau cyffredinol y Blynnyddoedd Cynnar yn well yn cynnwys gweithredu Fframwaith Rhianta Integredig
- Gweithio gyda phartneriaid i ffurfio bwrdd strategol i gefnogi chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn RhCT
- Datblygu a chyflwyno gwasanaethau sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau mwy cysylltiedig a chydnerth i drechu tloedi a hybu llesiant. Bydd hyn yn galluogi unigolion a'u teuluoedd i gael cymorth mor gynnar â phosibl i atal problemau rhag gwaethygu a lleihau'r galw am wasanaethau arbenigol costus a sicrhau bod unrhyw brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) yn cael eu nodi a'u trin a'u heffaith ar blant yn cael eu lleihau.
- Cyflwyno'r buddsoddiadau blaenoriaeth ar gyfer Hamdden, Parciau, Meysydd Chwarae, Gwasanaethau Profedigaeth a Threftadaeth. Bydd y buddsoddiad hwn mewn Hamdden yn galluogi'r gwasanaeth i ddenu cwsmeriaid newydd o gymunedau lleol i wella eu cynnwys mewn gweithgaredd corfforol er budd eu hiechyd a'u llesiant. Bydd y buddsoddiad ym meysydd chwarae yn rhoi cyfleoedd chwarae mwy ysgogol a diogel i blant trwy'r Fwrdeistref Sirol.
- Swyddogaethau Chwaraeon a Datblygu Iechyd i gyflwyno blaenoriaethau'r Strategaeth Hamdden yn well. Bydd hyn yn cynyddu cyfranogiad gweithredol mewn gweithgaredd corfforol ar draws pob ystod oedran gyda'r nod o leihau lefelau gordewdra mewn plentyndod ac yn oedolion, gan gynyddu disgwyliad oes cyffredinol a chyfrannu at iechyd a llesiant cyffredinol trigolion Rhondda Cynon Taf.

Astudiaeth Achos – Sut gall y Gwasanaeth Aros yn lach yn y Cartref wneud gwahaniaeth

Cyn ei derbyn i'r ysbyty, roedd Mrs B yn byw gartref gyda'i gŵr mewn byngalo gyda gris i fynd i mewn â rheiliau gafael ychwanegol am gymorth. Roedd Mrs B yn defnyddio cymhorthion cerdded i fynd o gwmpas y tŷ a byddai'n defnyddio cadair olwyn os byddai'n mynd allan gyda'i Gŵr. Nid oedd pecyn gofal blaenorol cyn ei derbyn i'r ysbyty, ac roedd Gŵr Mrs B yn cynorthwyo gyda'r holl weithgareddau domestig a pharatoi prydau a byddai weithiau'n cynorthwyo Mrs B gyda gweithgareddau gofal personol.

Cafodd Mrs B ei derbyn i'r ysbyty i gael ymyriadau llawfeddygol yn dilyn hanes o anesmwythder yn yr abdomen. Roedd wedi ei hystyried yn anaddas yn feddygol i'w rhyddhau

ac roedd yn aros am becyn gofal newydd i gynorthwyo gyda gweithgareddau gofal personol i ddechrau pan fyddai'n cael ei rhyddhau. Gyda'r llwybr traddodiadol, anfonwyd atgyfeiriad i'r awdurdod lleol i sefydlu pecyn gofal ond nid oedd dyddiad rhyddhau wedi cael ei gynllunio. Nododd y therapyddion ar y ward hefyd bryderon o ran symudedd yn y gwely; roedd angen cymorth ychwanegol ar Mrs B i ddod allan o'r gwely.

Cefnogodd y Tîm Aros yn lach yn y Cartref (SW@HT) y ward i gydlynu cynlluniau rhyddhau Mrs B gan gysylltu â therapyddion y ward i edrych ar opsiynau i gynorthwyo Mrs B i gael eu rhyddhau gartref. Gweithiasant gyda'r gwasanaeth cymunedol i drefnu i Mrs B gael ei chefnogi gan y 'gwasanaeth cadw' yr un diwrnod felly cynlluniwyd rhyddhau'r un diwrnod.

Yn ystod yr adolygiad a gynhaliwyd gan SW@HT, nodwyd offer priodol a threfnwyd cynlluniau cyflwyno trwy'r siop offer.

Yn ystod y broses o gynllunio rhyddhau, cododd rhwystr nas rhagwelwyd oedd yn effeithio ar allu Mrs B i ddychwelyd adref. Derbyniwyd Gŵr Mrs B i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys o dan amheuaeth o emboledd yr ysgyfaint. Mr B oedd prif ffynhonnell cymorth i Mrs B felly mynegwyd pryderon yn ymwneud â gallu Mrs B i ymdopi gartref gydag un alwad ychwanegol y dydd yn unig. Mynegwyd pryderon hefyd yn ymwneud â mynediad i'r eiddo (gan nad oedd Mr B yn bresennol i agor y drws i staff gofal).

Fe wnaeth aelodau o SW@HT ymweld â'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys i gael y wybodaeth ddiweddaraf am statws Mr B ac i gyfathrebu gyda'r teulu'n ymwneud â phryderon ynghylch cynlluniau rhyddhau.

Yn dilyn trafodaeth hirfaith gyda Mrs B ac aelodau'r teulu yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, roedd staff SW@HT yn gallu cael darlun gwell o'r anghenion cymorth gartref.

O dan broses SW@HT, ailystyriwyd yr asesiad a gwnaed cais i gynyddu'r pecyn gofal i x1 alwad y dydd i x3 galwad y dydd, oedd yn canolbwyntio ar ddarparu'r cymorth y byddai Gŵr Mrs B wedi ei roi pe byddai gartref.

Cysylltodd therapyddion y Ward gyda Gofal a Thrwsio i osod blwch allwedd brys er mwyn gallu mynd i mewn i'r eiddo. Ni fyddai'r cynnydd a'r hyblygrwydd yn ymwneud â'r pecyn gofal wedi bod yn bosibl gyda'r ffyrdd traddodiadol o weithio.

Yn anffodus, wrth gwblhau'r cynlluniau terfynol ar gyfer rhyddhau, hysbysodd Therapyddion y ward SW@HT nad oed unrhyw drafnidiaeth ysbyty ar gael ac na fyddai'n bosibl i'r teulu roi cymorth, felly gohiriwyd rhyddhau tan y diwrnod canlynol. Rhoddwyd y wybodaeth i'r tîm am 15:50.

Er mwyn osgoi oedi diangen, cysylltodd SW@HT â gwasanaeth 'O'r Ysbyty i'r Cartref' Age Connect i gynorthwyo cludo gartref a darparu gwasanaeth setlo i mewn, oedd yn cynnwys paratoi diod boeth a byrbryd ysgafn i Mrs B, paratoi'r dillad gwely a thynnu'r llenni. Cynorthwyodd gweithiwr cymorth Age Connect hefyd gyda'r gwaith o roi allwedd y tŷ mewn man diogel. Cyn i Age Connect gynorthwyo Mrs B i fynd adref, adolygodd Therapydd SW@H symudedd Mrs B a gallu trosglwyddo cyffredinol i mewn/allan o'r car a mynd i'r afael â gallu Mrs B i gymryd un cam, y byddai angen i Mrs B ei wneud cyn mynd adref gyda gweithiwr Age Connect.

Dychwelydd Mrs B gartref yr un diwrnod.

Yr hyn y mae'r achos hwn yn ei ddweud wrthym:

- Ni fyddai Mrs B wedi gallu dychwelyd adref heb gefnogaeth mynediad uniongyrchol SW@HT i 'wasanaeth cadw' yr awdurdod lleol.
- Mae'r achos hwn yn dangos hyblygrwydd a chydlynu cyffredinol yn SW@HT a defnydd effeithiol o adnoddau

- Defnydd effeithiol o wasanaethau'r Trydydd Sector i hwyluso rhyddhau prydlon
- Ymagwedd holistig i gynllunio rhyddhau (gan ystyried y digwyddiadau diweddar yn ymwneud â'r Gŵr)
- Cydweithio gyda'r MDT i hwyluso rhyddhau prydlon
- Arhosiad llai yn gyffredinol

(c) Cymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag cam-drin, esgeulustod neu niwed

Beth wnaethom gynllunio i'w wneud y llynedd?

Ein bwriad oedd:

- Parhau i ymateb yn effeithiol i oedolion mewn perygl a sicrhau bod y gofynion diogelu oedolion diwygiedig yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael eu gweithredu.
- Cynnal gwerthusiad gyda'n partneriaid o effaith y newidiadau a wnaed i'r Hwb Diogelu Aml-asiantaeth (MASH);
- Cynnal gwerthusiad o effaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol sydd newydd ei sefydlu

Pa mor bell y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Yn 2016/17, rydym wedi parhau i ddiogelu oedolion, plant a phobl ifanc yr oedd eu hamgylchiadau'n eu gwneud yn agored i niwed ac ymateb yn effeithiol i'r rheiny sydd mewn perygl er mwyn sicrhau bod y gofynion diogelu diwygiedig yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu gweithredu. Ar y cyd â'n Hasiantaethau partner, rydym wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu oedolion a phlant a sefydlu dau Fwrdd, Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf (CTSAB) a Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (CTSCB). Mae gan y ddwy weledigaeth i sicrhau bod oedolion dros 18 oed, plant a phobl ifanc yng Nghwm Taf hyd at 18 oed, wedi eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed a'u bod yn cael eu hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu o fathau eraill o niwed ac yn byw mewn amgylchedd sydd yn hybu eu llesiant. Nod y CTSAB a CTSCB yw gweithio gydag ethos Llais a Rheolaeth gan ymgysylltu â, gwrando ar a chlywed safbwyntiau oedolion, plant a phobl ifanc.

Mae'r ddau Fwrdd wedi paratoi Cynlluniau Blynyddol 2017/18 a gyhoeddwyd ar wefan Byrddau Diogelu Cwm Taf (www.cwmtafsafeguarding.org) ar gyfer 31 Mawrth 2017. Mae'r cyflawniadau canlynol wedi cael eu cyflwyno:

- Mae gan bob asiantaeth bartner a gynrychiolir ar y Byrddau gyfrifoldebau dros ddiogelu'r rheiny sydd mewn perygl.
- Mae gan y Byrddau strwythurau clir ar waith ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau ac adrodd ar eu heffeithiolrwydd
- Mae protocolau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl a thynnu sylw'r Byrddau at faterion a pheryglon
- Mae'r Byrddau'n sicrhau bod systemau digonol wedi eu sefydlu i alluogi gwybodaeth ddiogelu i gael ei rhannu'n effeithiol ymysg yr holl asiantaethau.
- Mae System Wybodaeth newydd ar gyfer gofal cymdeithasol a rhai elfennau o'r GIG yn cael eu datblygu a chânt eu cyflwyno erbyn diwedd 2017.
- Mae Is-grwpiau Sicrhau Ansawdd y Bwrdd yn monitro, yn adolygu ac yn archwilio effeithiolrwydd gwaith sefydliadau lleol ac unigolion i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

- Mae'r Bwrdd yn sefydlu'r Is-grŵp Hyfforddiant a Dysgu (TALG) oedolion a phlant ar y cyd
- Mae Calendr Hyfforddiant Diogelu Oedolion wedi cael ei ddatblygu ac mae themâu o archwiliad ac adolygiadau'n cael eu cydgrynhoi i lywio digwyddiadau hyfforddiant a dysgu yn y dyfodol.
- Mae Uned Fusnes Ddiogelu ar y cyd wedi cael ei sefydlu i gefnogi gweithrediad effeithiol y ddau Fwrdd.
- Mae'r CTSCB wedi penodi aelodau unigol o'r Bwrdd i hyrwyddo meysydd penodol sy'n agored i niwed. Y rhain oedd: Plant sy'n destun esgeulustod; Plant sy'n derbyn gofal; plant sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed; plant sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE).

Mae partneriaid MASH wedi cwblhau gwerthusiad o'r Hwb Diogelu Aml-asiantaeth yn dilyn ei flwyddyn gyntaf o gyflwyno a nododd angen i adolygu'r prosesau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant ac oedolion sydd mewn perygl. Nododd arolwg a wnaed gydag ystod o weithwyr proffesiynol fod MASH wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddiogelu yng Nghwm Taf a bod protocolau Rhannu Gwybodaeth wedi cael eu sefydlu rhwng partneriaid MASH.

Cynhyrchodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adroddiad olrhain ar y trefniadau Diogelu Oedolion a nododd fod cyflwyno'r MASH wedi cael effaith arwyddocaol ar ymateb yr awdurdod i ddiogelu oedolion a'u rheolaeth ohono. Dywedasant hefyd fod yr angen i ailffurfio prosesau a thimau i ofynion y Ddeddf newydd yn cael ei ystyried yn gynhyrchiol, er enghraifft gan arwain at drefniadau gweithio agosach rhwng gwasanaethau oedolion a phlant.

Cawsant eu plesio gan gryfder y gwaith partneriaeth, gyda ffocws amlwg ar ganlyniadau iechyd a llesiant unigol; mae cydleoli wedi bod yn allweddol yn hwyluso hyn, gan alluogi sgysiau gwybodus yn seiliedig ar wybodaeth a rennir. Cafwyd cysondeb cynyddol o ran gwneud penderfyniadau yn ystod yr amser y mae MASH wedi bodoli, yn arbennig mewn perthynas â chyfnodau 1 i 4 o'r broses diogelu Oedolion. Canfuant fod penderfyniadau'n ymwneud â diogelu yn gadarn ar y cyfan, gyda chymau cymesur ac effeithiol yn cael eu cymryd mewn ymateb i atgyfeiriadau; fodd bynnag, nid yw cofnodi a rhoi tystiolaeth o wneud penderfyniadau a chanlyniadau bob amser wedi ei sefydlu, nac yn cael ei wneud yn brydlon i gefnogi a rhoi tystiolaeth o hyn. Mae gwaith yn parhau i wella cofnodi gwybodaeth.

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, gwnaed 15,579 o gysylltiadau â MASH

Mae MASH yn cyfrannu at leihau atgyfeiriadau mynych trwy rannu gwybodaeth o ansawdd da gydag ymarferwyr Gofal Cymdeithasol. Ym Mawrth 2017, canran yr atgyfeiriadau mynychu ar gyfer diogelu plant oedd 20.5%. Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, cynhaliwyd 1609 o ymchwiliadau Adran 47 mewn ymateb i faterion diogelu a gofnodwyd. Mae hyn yn llai na'r 2030 o Adran 47 a gynhaliwyd yn ystod 2015/16.

Fel rhan o'n gwaith i ddiogelu llesiant plant a sicrhau ein bod yn rhoi pobl ifanc yn y lleoliad mwyaf priodol, mae gwerthusiad o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol wedi dechrau a daw i ben yn 2017.


Gan edrych ar y data, gwyddom:

- Mai canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod oedd 93.19% (479/514).
- Bod niferoedd cyffredinol Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi lleihau 10% (o 458 i 418).
- Mai canran yr ailgofrestriadau Plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol yw 9.40% (58/617).

- Yn ystod 2016/17, daeth 13 o blant yn blant sy'n derbyn gofal ar fwy nag 1 achlysur. Mae hyn yn gyfwerth â 4.86% o'r holl dderbyniadau.

Rydym wedi cwblhau arolwg ansoddol o bobl sydd yn derbyn gofal a chymorth sydd wedi cadarnhau bod: 76% (298/392) o Oedolion sydd yn derbyn gofal a chymorth wedi nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel, gyda 17% (66/392) yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel rhywfaint o'r amser.

I feel safe




Rwyf yn teimlo'n ddiogel

- Ydw
- Weithiau
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Nododd 92% (214/231) o'r plant â chynllun cymorth a gofal a ymatebodd eu bod yn teimlo'n ddiogel drwy'r amser

I feel safe

(For example, cared for and safe from anyone who can hurt you or treat you badly, both inside and outside your home)



Rwyf yn teimlo'n ddiogel

(Er enghraifft, yn derbyn gofal ac yn ddiogel rhag unrhyw un sydd yn gallu eich niweidio neu eich trin yn wael, yn eich cartref a thu allan i'ch cartref)

Ydw
Weithiau
Nac ydw
Ddim yn gwybod

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Yn ystod 2017/18 byddwn yn:

- Parhau i sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc yn cael eu diogelu rhag cam-drin ac esgeulustod ac yn cymryd y camau priodol i amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth rhag cam-drin ac esgeulustod neu unrhyw fathau eraill o niwed.
- Gweithredu Model Fframwaith Risg er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwneud penderfyniadau'n ymwneud â bywydau Plant.
- Lleihau nifer yr achosion mynych lle mae Plant a Phobl Ifanc yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i staff sicrhau nad yw grwpiau â nodweddion a ddiogelir yn dioddef gwahaniaethau ac i adnabod materion diogelu gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu neu ddigwydd. Bydd hyn yn golygu bod gwasanaethau tai yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd diogelu yn unol â Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a bydd gan staff y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei angen i adnabod materion diogelu ac atal problemau rhag gwaethygu neu ddigwydd
- Sefydlu mwy o ddewis o leoliadau lleol o ansawdd uchel sydd ar gael ar gyfer plant nad ydynt yn gallu aros gartref, trwy gynyddu nifer y gofalwyr maeth yn Rhondda Cynon Taf.
- Cynnal rhaglen o waith archwilio ac adolygu trwy Is-grŵp Sicrhau Ansawdd Oedolion (AQA) i adnabod themâu a thueddiadau i lywio arfer gorau mewn perthynas â diogelu oedolion
- Cwblhau'r adolygiad o brosesau diogelu oedolion a'r trothwyon ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru
- Sicrhau bod fframwaith rheoli perfformiad cadarn wedi ei sefydlu ar gyfer y MASH sydd yn cyd-fynd â gwaith yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd y Bwrdd.
- Parhau i ddatblygu calendr hyfforddiant aml-asiantaeth a nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth
- Datblygu rhaglen o Ddigwyddiadau Ymarferwyr Aml-asiantaeth i rannu dysgu oddi wrth oedolion ac adolygiadau gyda chynulleidfa eang o ymarferwyr sy'n gysylltiedig â diogelu
- Cynyddu'r gronfa o adolygwyr/hwyluswyr sydd â'r sgiliau priodol i gynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion

Astudiaeth Achos 1- sut mae MASH yn gwneud gwahaniaeth i wasanaethau oedolion?

Mae A yn fenyw 59 oed ag anabledd dysgu ysgafn ac nad oedd yn hysbys i Wasanaethau Oedolion y Cyngor cyn y llynedd, pan dderbyniodd yr Hwb Diogelu

Aml-asiantaeth (MASH), adroddiad gan weithiwr Cymunedau yn Gyntaf Lleol. Roedd A wedi mynd i'w chanolfan gymunedol leol gan ddweud nad oed yn gwybod sut y byddai'n ymdopi gan fod ei 'mam', a oedd, mewn gwirionedd, yn fam i'w chyn-gariad, wedi marw'n ddiweddar a'i bod yn arfer gofalu am A. Aeth A ymlaen i ddweud nad oedd ganddi unrhyw arian am fod gan ei chwaer yng nghyfraith ei harian i gyd. Dywedodd hefyd fod ganddi gariad yn y carchar yr oedd yn mynd i'w briodi pan fyddai'n cael ei ryddhau a bod ei chwaer yng nghyfraith (merch ei Mam) wedi ei rhoi mewn cysylltiad ag ef ac wedi ysgrifennu llythyrau ato drosti. Dywedodd A wrth y gweithiwr fod ei chwaer yng nghyfraith wedi mynd â hi i'r carchar i gyfarfod â dynion eraill hefyd cyn yr un yma. O ganlyniad, ymwelodd y gweithiwr ag A gartref a nododd amodau byw brwnt a dim llawer o fwyd yn y fflat.

Trefnodd y Swyddog Diogelu a dderbyniodd yr adroddiad hwn i'r Tîm Anabledd Dysgu gynnal asesiad yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gyda ffocws cychwynol ar ddatblygu perthynas ac annog datgelu am gam-drin a chamfanteisio. Tra bod y gwaith hwn yn cael ei wneud, rhannodd y Swyddog Diogelu yr wybodaeth a gafwyd gydag asiantaethau partner MASH eraill i ddechrau, yn arbennig Heddlu De Cymru, yr asiantaethau Carchardai a Phrawf a daeth i'r amlwg gan y gweithiwr cymdeithasol oedd yn cynnal yr asesiad, ac yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, nad oedd A yn gallu rheoli ei harian na chadw ei hun yn ddiogel rhag camfanteisio rhywiol a'u bod yn cael ei cham-drin mewn amrywiaeth o ffyrdd gan nifer o droseddwr. Cymerwyd camau i ddiogelu ei harian, fel y Cyngor yn cael penodeiaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i reoli ei budd-daliadau, a'r gweithiwr cymdeithasol a'r swyddog diogelu gyda Trivallis yn sicrhau ei thenantiaeth ar ei fflat a gwella ei hamodau byw. Cyflwynwyd A i weithwyr cymorth i roi cymorth ymarferol ac emosiynol iddi, gyda'r nod o leihau ei dibyniaeth ar y rheiny oedd yn ei cham-drin ac amharu ar eu gweithgareddau. Cynhaliodd Heddlu De Cymru nifer o ymchwiliadau troseddol i'r hyn oedd yn ymddangos fel troseddau rhywiol, lladrad a thwyll ac mae rhai ohonynt yn dal ar y gweill.

Mae A yn dal i gael cymorth gan ystod o wasanaethau'r cyngor: mae wedi symud o'i fflat, lle'r oedd yn dal yn agored iawn i niwed gan gam-drinwyr anrheithgar a manteisgar, i gyfleusterau gofal ychwanegol newydd, lle mae cymorth gofleidiol ar gael. Mae'n ffynnu, gyda'i hyder a'i sgiliau bywyd yn gwella'n fisol

Astudiaeth Achos 2- sut mae MASH yn gwneud gwahaniaeth i wasanaethau plant?

Mae X yn 8 mis oed a chafodd ei atgyfeirio at MASH gan y meddyg teulu gan fod pryderon ei fod wedi cael nifer o gleisiau na allai'r rhieni eu hesbonio. Dechreuodd tîm MASH wneud ymholiadau Amddiffyn Plant yn unol â'r gweithdrefnau Amddiffyn Plant a chynhaliwyd cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth gydag asiantaethau partner wedi eu lleoli yn MASH o fewn awr o'r atgyfeiriad gwreiddiol. Arweiniodd ymholiadau pellach a hwyluswyd yn MASH at X yn cael ei roi'n ddiogel gydag aelodau o'r teulu yr un diwrnod.

(d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Beth wnaethom gynllunio i'w wneud y llynedd?

Yn 2016/17, nododd gweithio gydag adrannau eraill y Cyngor ac mewn cydweithrediad â'n partneriaid, y blaenoriaethau canlynol:

- Lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn cynnwys: canolbwyntio ar wella cyflawniad disgyblion sydd o dan anfantais neu'n byw mewn tloedi trwy rannu arfer da rhwng ysgolion; datblygu rôl y Cydlynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn sicrhau bod gan ysgolion bolisiâu wedi eu sefydlu i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal; gosod blaenoriaethau ar gyfer ysgolion yn benodol ar gyfer gwella canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion, gan gyflwyno prosiect lle mae deg o ysgolion Cynradd yng nghymunedau'r cymoedd yn RhCT yn cydweithio i ganfod ffyrdd o weithio gyda a helpu disgyblion sydd yn byw mewn amddifadedd.

I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

Fe wnaethom hybu llesiant ac ymgysylltu pob dysgwr, gyda ffocws ar fynychu'r ysgol ac amgylchedd ar gyfer pob dysgwr. Nid yw canlyniadau cyffredinol ar gyfer disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn RhCT yn gwella mor gyflym â rhai disgyblion nad ydynt yn gymwys. Mae'r bwlch mewn cyflawniad yn dal yn rhy fawr yn y cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Mae mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn dal yn flaenoriaeth i'r Cyngor a Chonsortium Canolbarth y De. Mae lefelau presenoldeb ar gyfer disgyblion sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim (eFSM) wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf a'r gobaith yw y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau cyrhaeddiad yn y dyfodol.

- cyflawnodd 52.43% (54/103) o'r plant y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2
- cyflawnodd 7.69% (8/104) o'r plant y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4
- newidiodd 13% (53/407) o'r plant sy'n derbyn gofal ysgol 1 waith neu fwy, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn sgil trefniadau pontio,
- roedd 50% (18/36) o'r holl ymadawyr gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal
- roedd 53.33% (24/45) o'r holl ymadawyr gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal

ASTUDIAETH ACHOS – Cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i gael cyflogaeth

Cafodd M, oedolyn ag anabledd dysgu, ei fagu mewn teulu â rhieni oedd yn yfwr trwm iawn ond nid oedd yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Pan fu farw ei rieni, ceisiodd M fyw gartref ond aeth yn ddigartref a byw ar y strydoedd a cham-drin alcohol. Ffoniodd aelod o'r gymuned y gwasanaethau cymdeithasol. Symudwyd M i fyw gyda chymorth i ffwrdd o'r ardal lle'r oedd wedi byw trwy gydol ei fywyd er mwyn rhoi dechrau newydd iddo. Cytunodd M i gael cwnsela ac addasodd i ffordd newydd o fyw.

O ganlyniad i hyn a chymorth arall, a gafodd M gan ein Tîm Pontio, dechreuodd wneud gwaith gwirfoddol oedd o gymorth iddo wneud hyfforddiant a chael tystysgrifau. Mae'n gweithio'n dda gyda gweithwyr eraill ac mae ei hyder wedi gwella. Nid yw M bellach yn yfed alcohol ac mae wedi trawsnewid ei fywyd, mae bellach yn berson bodlon ac nid oes angen cymorth arno bellach gan y Tîm Pontio.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Yn 2017/18, ein cynlluniau yw i:

- Weithio gyda chymunedau a'r 3^{ydd} sector i ddatblygu cadernid cymunedol a gallu fel ffordd o wella iechyd a llesiant cyffredinol wrth hwyluso a hybu menter gymdeithasol.
- Ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau'r trydydd sector i gyd-gynhyrchu hybiau cymunedol sydd yn gallu: rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl yn eu hardal; cysylltu â'r rhwydwaith ehangach o weithgareddau a chyfleusterau cymunedol; cynnig rhai atebion cymunedol i fodloni rhai o anghenion cymorth lefel isel y bobl sydd yn byw yn yr ardal (h.y. caffï dementia ac ati)
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r ardaloedd rhwydwaith gorau a'r lleoliadau mwyaf buddiol ar gyfer hybiau cymunedol.
- Chwilio am bartneriaid trydydd sector ar draws y fwrdeistref sirol a nodi llwybr hanfodol ar gyfer datblygiad.

(e) Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach yn ddiogel

Beth wnaethom gynllunio ei wneud y llynedd?

Mae ein cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael y dechrau gorau mewn bywyd. Rydym yn cydnabod bod angen cymorth ar rai teuluoedd a dywedasom y byddem yn ymyrryd lle mae materion yn codi ac yn comisiynu trefniadau cymorth effeithiol i deuluoedd i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, lle mae hynny er budd y plant.

Canolbwyntiodd ein cynlluniau ar gyfer y llynedd ar ein hymdrechion i barhau i leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn unol â tharged 2016/17 o 5%

Dechreuodd Prosiect Proffilio Bregusrwydd a Gwasanaethau Plant (VP&CS) ym mis Ebrill 2015. Roedd yn brosiect datblygiadol ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Addysg a Phlant i gryfhau ein sefyllfa gydweithredol yn rhoi cymorth amserol i deuluoedd mewn angen. Roedd yn ceisio defnyddio'r data sydd gennym yn barod yn well er mwyn adnabod teuluoedd sydd angen cymorth a rhagweld teuluoedd yn chwalu, lleihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal a lleihau nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r model Bregusrwydd a Chadernid o ganlyniad yn cyfeirio targedu ymyrraeth gynnar i atal anghenion rhag cynyddu i lefelau statudol.


Cynhaliwyd adolygiad o gyflwyno trefniadau Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) yn RhCT ym mis Rhagfyr 2016. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod nifer o gryfderau mewn perthynas â chyflwyno'r gwasanaeth, yn arbennig sgiliau a phrofiad staff a'u hymrwymiad i weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Fodd bynnag, roedd hefyd angen mynd i'r afael â'r bylchau yn y systemau, prosesau, trefniadau llywodraethu a chyfathrebu presennol.

I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Ystyried y gwaith yr ydym wedi ei wneud i sicrhau ein bod yn gofalu am y plant iawn am yr amser iawn, gan geisio cael trefniadau gofal diogel a pharhaol am weddill eu plentyndod.

Yn ogystal, gwyddom o'n harolygon lleol, ar gyfer oedolion sydd yn derbyn gofal a chymorth, bod 74% (280/383) wedi nodi eu bod weithiau neu bob amser yn teimlo'n rhan o'u cymuned a bod 84% (325/388) wedi dweud eu bod yn hapus gyda'r gefnogaeth gan deulu, ffrindiau a chymdogion


I feel I am part of my community



Rwyf yn teimlo fy mod yn rhan o'm cymuned

- Ydw
- Weithiau
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

I am happy with the support from my family, friends and neighbours




Rwyf yn fodlon gyda'r cymorth gan fy nheulu, ffrindiau a chymdogion

- Ydw
- Weithiau
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Rydym hefyd yn gwybod bod 87% (201/230) o'r plant â chynllun gofal a chymorth a ymatebodd i'n harolwg wedi nodi eu bod yn fodlon gyda fy nheulu, ffrindiau a chymdogion.

I am happy with my family, friends and neighbours



Rwyf yn fodlon gyda fy nheulu, ffrindiau a chymdogion

Ydw
Weithiau
Nac ydw
Ddim yn gwybod

Beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Byddwn:

- Yn lleihau'r angen am Wasanaethau Statudol i sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael cymorth teuluol integredig yn gynt.
- Yn cynorthwyo plant sydd yn methu byw gyda'u rhieni eu hunain er mwyn iddynt allu byw mewn llety addas yn RhCT. Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth a gofalywyr sydd angen cymorth i ddatblygu a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach yn ddiogel. Bydd hyn yn meithrin teimlad o berthyn a byddant yn gallu cyfrannu'n well at a mwynhau perthynas ddiogel ac iach.
- Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth a gofalywyr sydd angen cymorth i ddatblygu perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach yn ddiogel. Mae'n bwysig eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cyfrannu at ac yn mwynhau perthynas ddiogel ac iach
- Gweithredu Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth i gyflwyno Model Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ar draws RhCT a gweithredu Model Bregusrwydd a Chadernid, i'n galluogi ni i ymateb i anghenion teuluoedd yn gyflym ac yn effeithiol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol.
- Gweithredu'r argymhellion yn dilyn adolygiad i'r holl wasanaethau a Gomisiynwyd gan Deuluoedd yn Gyntaf, gyda ffocws ar ataliaeth, integreiddio, cydweithredu a chyfranogiad
- Datblygu'r Gwasanaeth Maethu i gefnogi plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth er mwyn iddynt allu cynnal y cysylltiad gyda'u teuluoedd

- Gwella diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol a lleihau'r effaith y mae hyn yn ei gael ar fywydau'r dioddefwyr a'r troseddwr a theuluoedd ehangach

(f) Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i gael llesiant economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Beth wnaethom gynllunio ei wneud y llynedd?

Roedd ein cynlluniau ar gyfer 2016/17 yn cynnwys:

- Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i barhau i weithredu datganiad rhanbarthol comisiynu pobl hŷn i fynd ar drywydd datblygu modelau gwasanaeth newydd, llety â chymorth a gwasanaethau dydd; parhau â'r pwyslais ar ailalluogi a gwasanaethau gofal canolraddol a rhoi mwy o gymorth i fentrau cymdeithasol a'r trydydd sector i ddatblygu cadernid rhwydweithiau cymorth cymunedol.
- Parhau i herio cymysgedd comisiynu lleoliadau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd yn derbyn gofal yn cael eu rhoi yn y lleoliad gofal mwyaf priodol a chost effeithiol yn ardal RhCT.
- Adolygu anghenion llety Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnwys y rheiny sydd wedi gadael gofal yn ddiweddar.
- Parhau i leihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal (CLA) yn unol â tharged 2016/17 o 5%.

I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

ASTUDIAETH ACHOS – Mae'r "Cromlin Dysg" yn helpu oedolion ag anableddau dysgu gyda chyflogaeth, addysg a sgiliau. Mae'r Ganolfan Arddwriaeth ac Arlwygo yn Llwynypia yn ffurfio rhan o 'Gromlin Dysg' ar draws Rhondda Cynon Taf. Mae chwech ar hugain o unigolion sydd yn derbyn ein gwasanaethau, rhwng 18 a 70 oed, yn gweithio yn y ganolfan, yn tyfu blodau ac yn paratoi basgedi crog a ddefnyddir i addurno'r gymuned. Mae'r ganolfan yn darparu'r holl flodau ar gyfer Cyngor Tref Llantrisant ac mae hefyd yn addurno ac yn tirlunio canolfannau tai Cartrefi RhCT.


Yn ogystal â sicrhau profiad gwaith a sgiliau hanfodol, a mwynhau amser cymdeithasol gyda'u cyfoedion, mae'r unigolion hefyd yn gweithio tuag at gymwysterau ac achrediadau, yn cynnwys tystysgrifau City and Guilds, gan Goleg y Cymoedd a Chyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal adran Arlwygo, lle mae 16 o unigolion eraill sydd yn derbyn gwasanaethau'n paratoi hyd at 80 o brydau bwyd y dydd ar gyfer pobl eraill sy'n defnyddio'r ganolfan ddydd. Maent hefyd yn sicrhau achrediad a chymwysterau arlwygo trwy eu gwaith. Mae un o'r myfyrwyr wedi cael gwaith yn y gegin yn Wetherspoons ym Mhontypridd, diolch i sgiliau ac arbenigedd y 'Gromlin Dysg'

- Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn oedd 16.1% (142/884).
- Canran yr ymadawyr gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn oedd 7.3% (13/178).

Er mwyn cynorthwyo pobl i fod mewn llety sy'n bodloni eu hanghenion gwyddom fod:

- 87% (334/384) o oedolion sydd yn derbyn gofal a chymorth a ymatebodd wedi nodi eu bod yn byw mewn cartref sy'n bodloni eu hanghenion orau

I live in a home that best supports my well-being.



Rwyf yn byw mewn cartref sy'n bodloni fy anghenion orau

Ydw

Weithiau

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Mae ein gweledigaeth ar gyfer llety a thai â chymorth yn seiliedig ar wneud y defnydd mwyaf effeithiol o wasanaethau cymorth llety a thai â chymorth o ran aildddefnyddio/ailfodelu adeiladau a safleoedd. Yn y pen draw, bydd angen i ni gynyddu dewis a rheolaeth dros bobl agored i niwed mewn llety â chymorth a thai gyda gwasanaethau cymorth, a pharhau i ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol.

Byddwn:

- Yn lleihau'r amser y mae Plant a Phobl Ifanc yn aros yn y system Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA).
- Yn adolygu anghenion llety Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA), yn cynnwys y rheiny sydd eisoes wedi gadael gofal er mwyn i ni allu darparu llety priodol ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni.
- Sicrhau bod plant sydd yn methu byw gyda'u rhieni eu hunain yn byw mewn llety addas yn RhCT.
- Gwella gallu comisiynu integredig y tîm Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhanbarthol a chyflawni gofynion statudol Bwrdd Partneriaeth SSWB Cwm Taf ar gyfer 2017/8. Bydd hyn o gymorth i ni fodloni'r gofynion yn unol â rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sefydlu cronfeydd wedi eu cyfuno mewn perthynas ag ymarfer swyddogaeth llety cartrefi gofal i wella canlyniadau gwell ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth. Bydd gallu comisiynu gwell wedi ei integreiddio yn golygu bod gofal yn cael ei gynllunio gyda sefydliadau sydd yn cydweithio i ddeall anghenion gofal a chymorth pobl yn llawn, byddai'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i gyflawni'r canlyniadau sydd yn bwysig iddynt yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i bob sefydliad yn ynysig.
- Yn Cyflwyno Gwasanaethau a Rhaglenni Diogelwch Cymunedol sydd yn hyrwyddo Rhondda Cynon Taf fel man diogel i fyw â lefelau uchel o gydlyniant cymunedol i helpu i leihau troseddu ac ofn troseddu. Bydd hyn yn hybu cydlyniant cymunedol.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar ymyriadau cynnar fydd yn mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i hynny.

5. Sut Rydym yn Gwneud yr Hyn yr Ydym yn ei Wneud

(a) Ein Gweithlu a'r Ffordd yr ydym yn Cefnogi eu Swyddi Proffesiynol

Mae cefnogi ein gweithlu yn hanfodol i gyflwyno gofal o ansawdd da i'r rheiny yn Rhondda Cynon Taf sydd angen eich cymorth chi. Y llynedd, rhoddwyd gwasanaeth a rennir newydd ar waith ar draws Cwm Taf gyda CBS Merthyr Tudful. Bydd Cynlluniau Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf, sydd newydd ei sefydlu, yn parhau i wella ansawdd a rheolaeth darpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol trwy ymagwedd wedi ei gynllunio tuag at ddysgu, datblygu a chymwysterau i gynyddu ymgymeriad dysgu a datblygu ar draws y sector gofal. Y llynedd, nodwyd a bodloni'r amcanion canlynol:

- Cefnogi staff ar draws yr holl sefydliadau partner sydd yn ymgysylltu mewn dyletswyddau a gyflwynir yn unol â chyfraith newydd y gwasanaethau cymdeithasol i gael y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a bod y newidiadau diwylliannol angenrheidiol yn cael eu dwyn ymlaen.
- Sicrhau bod yr holl ddysgu a datblygu craidd, yn cynnwys sefydlu a hyfforddiant cymwysterau, yn cael ei ailffurfio i adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd;
- Parhau gyda'r cymorth presennol ar gyfer hyfforddiant cymhwyso Gwaith Cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru;
- Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol;
- Cefnogi'r isadeiledd ar gyfer dysgu a datblygu ar draws Cymru, yn cynnwys partneriaeth leol a rhanbarthol a chydweithio;
- Sicrhau bod casglu, cydgrynhoi ac adrodd gwybodaeth am y gweithlu yn effeithiol;

Byddwn yn parhau i ddatblygu cwmpas a chyrraedd y ddarpariaeth dysgu a datblygu gan ddatblygu'r ymagwedd gychwynnol o ddarpariaeth gwasanaeth unigol ar draws y rhanbarth ac ymestyn hyn i weithio mewn partneriaeth gyda Rhanbarthau partner eraill i ddatblygu cryfderau cyflenwi cydweithredol ac wedi ei rannu. Ein hamcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd y byddwn:

- Yn parhau i gefnogi staff gofal cymdeithasol sydd yn gysylltiedig â dyletswyddau sy'n cael eu cyflwyno yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gael y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau i weithredu disgwyliadau cyfreithiol a diwylliannol y Ddeddf
- Cefnogi'r gwaith o weithredu Rheoliad ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) trwy gefnogi'r gweithlu gofal cartref er mwyn paratoi ar gyfer cofrestru a chefnogi gwybodaeth unigolion cyfrifol.
- Cefnogi ymagweddau effeithlon trwy ddefnyddio a gweithio gyda chynlluniau/rhaglenni cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru: yn cynnwys Camu Ymlaen i Reoli; Ymarferwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol; Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol; Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm; a rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer y Deddfau

- Parhau'r cymorth cyfredol ar gyfer hyfforddiant cymhwys ac ôl-gymhwys Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru; cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, a chefnogi'r gwaith o gyflwyno fframwaith sefydlu diwygiedig o fis Medi 2017; a chefnogi'r isadeiledd ar gyfer dysgu a datblygu ar draws Cymru, yn cynnwys partneriaeth a chydweithio lleol a rhanbarthol.
- Sicrhau bod yr ymrwymadau dysgu a datblygu a wnaed mewn ymateb i 'Ofynion gweithredu' y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael eu holrhain (mewn perthynas â'r adroddiad, "A Place to Call Home")

(b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar Gyfer y Dyfodol

Gwyddom ar draws ein cyngor fod y galw am wasanaethau lleol yn dal i gynyddu. Yn y gwasanaethau cymdeithasol, rydym yn wynebu nifer o heriau yn bodloni gofynion a disgwyliadau'r rheiny sydd angen ein cymorth. Caiff y galw ei lywio gan broffil newidiol y boblogaeth, gyda nifer y bobl dros 65 oed yn cynyddu. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn wynebu bwlch posibl o £80 miliwn yn y gyllideb rhwng 2016 a 2020. Mae hyn yn ogystal â'r bwlch o £76 miliwn yn y gyllideb y mae'r Cyngor wedi delio ag ef rhwng 2011 a 2016. Ar yr un pryd, mae preswylwyr yn wynebu mwy o bwysau ariannol yn sgil cynnydd mewn biliau ynni, costau tai, cyfyngiadau cyflog a diwygiadau parhaus i fudd-daliadau. Mae pobl yn disgwyl gwasanaethau gwell ac ymatebion mwy prydlon gan y Cyngor.

Yn 2017/18, byddwn yn parhau i gyflwyno effeithlonrwydd cytûn yn ymwneud â'r gyllideb ac yn rheoli Gwasanaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn y cynllun tymor canolig.

(c) Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd Gwleidyddol a Chorfforaethol

Mae gwaith partneriaeth ar draws y rhanbarth ehangach yn gryf, yn arbennig ar ôl cyflwyno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y blynyddoedd diweddar, p'un ai'n cynllunio anghenion a gofynion hyfforddiant ein gweithlu, integreiddio ein darpariaeth gwasanaeth neu'n ymateb i heriau ar draws y rhanbarth, rydym yn gwneud mwy ar y cyd i gyflwyno gwasanaethau gwell.

Mae Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol yn gryf yn Rhondda Cynon Taf, sy'n cael ei arddangos gan Aelodau etholedig ar draws y Grŵp, gyda ffocws pendant o ran herio perfformiad ac ysgogi gwelliant o ran gwasanaethau a newid. Mae ein Haelod o'r Cabinet yn hawdd mynd ato, yn gefnogol ac yn cymryd rhan lawn yn cyflwyno gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaeth yn cyfarfod â'r Aelod o'r Cabinet yn fisol i drafod materion a blaenoriaethau cyfredol ac yn cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â thestunau perthnasol. Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu GMT yn fisol ac mae papurau briffio yn ymwneud â gweithgaredd y gwasanaeth yn ymwneud â Gwasanaethau plant yn cael eu cyflwyno. Mae adroddiadau rheolaidd fel rhan o'n llywodraethu a'n hatebolrwydd yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor Craffu ar Addysg Phlant er mwyn sicrhau her briodol mewn perthynas â'n blaenoriaethau. Mae'r Arweinydd hefyd yn gysylltiedig trwy gyfarfodydd a phrosesau ffurfiol diweddarau newidiadau i'r gwasanaeth e.e. Cabinet Preifat, Cabinet a Chyngor. Mae'r holl newidiadau polisi'n mynd trwy'r Cabinet i gael eu cymeradwyo.

Yn 2017/18, byddwn yn sicrhau bod systemau a fframweithiau gwybodaeth perfformiad a rheolaeth yn cefnogi ein hanghenion strategol a gweithredol. Gallai gweithredu'r WCCIS fel system TGCh genedlaethol helpu'n sylweddol i gyflawni blaenoriaethau allweddol a mynd i'r afael â'r heriau technegol ac ymarferol sylweddol sydd yn gysylltiedig â chreu a chynnal

ymagwedd unedig. Bydd hyn yn arwain at reolaeth well o ofal trwy gyfathrebu gwell rhwng asiantaethau partner, yn sicrhau asesu llai beichus a chyfleoedd ar gyfer ailadrodd gwybodaeth i asiantaethau lluosog, a llai o gyfleoedd ar gyfer dyblygu a gwallau yn arbennig ar gyfer pobl agored i niwed.

6. Cael Mwy o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

Wrth greu'r adroddiad hwn, rydym wedi dibynnu ar swm sylweddol o wybodaeth, data, adroddiadau, arolygon ac ati. Mae'n ceisio nodi cynnydd yr awdurdod lleol yn gwella llesiant y bobl hynny sydd angen ein cymorth a'n cefnogaeth. Nid yr adroddiad hwn yw'r unig ffynhonnell wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, partneriaid allweddol a darparwyr gwasanaethau. Mae gennym wybodaeth gefndirol sylweddol y tu ôl i'r adroddiad hwn sy'n rhoi llawer o fanylion ychwanegol am yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud. Yn bwysig iawn, os na sonnir am rywbeth yn yr adroddiad hwn fel blaenoriaeth allweddol, nid yw'n golygu nad ydym yn ei wneud, gan fod llawer iawn o weithgaredd ar draws y gwasanaethau cymdeithasol sydd yn chwarae rhan yn ein helpu ni i ddarparu ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

I gael mwy o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud, dyma rai o'r dogfennau fydd yn rhoi mwy o fanylion i chi:

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2016 – 2020
- Asesiad Anghenion Poblogaeth Cwm Taf
- Asesiad Llesiant Cwm Taf
- Adroddiadau adrannol
- Adolygiad Perfformiad AGGCC 2016/17